# Adolygiad Rheoleiddio - Dyfarniad Cadarnhau

## Dyddiad: Ionawr 2026

## Taff Housing Limited – L009

Yn dilyn adolygiad rheoleiddio, mae dyfarniad rheoleiddio Ionawr 2024 ar gyfer Taff Housing Ltd wedi'i gadarnhau ac yn parhau i fod yn ddilys.

## Dyfarniad

| Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion** |
| **Hyfywedd Ariannol** | |
| **Gwyrdd** | **Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion** |

### Y Broses Asesu

Cynhaliwyd yr asesiad yn unol â'r [Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru 2025]. Roedd yn cynnwys adolygiad bwrdd gwaith o hunanwerthusiad y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL), ei gynllun gwella cydymffurfiaeth a metrigau hyfywedd ariannol. Ystyriwyd gwybodaeth o gyswllt rheoleiddiol arferol â'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig hefyd. Mae'r dyfarniad blaenorol yn parhau i fod ar waith ar y sail nad oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg sy'n newid proffil risg y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn sylweddol.

### Gofynion Hunanwerthuso a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025

Nid oeddem yn gallu dod i'r casgliad bod yr hunanwerthusiad yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025 yn llawn. Rhaid mynd i'r afael â'r gofynion a nodir isod yn llawn yn eich hunanwerthusiad nesaf:

> **Gofyniad 4**. Datganiad yn dangos sut mae safbwyntiau tenantiaid wedi'u deall a'u hystyried yn yr ymarfer hunanwerthuso, gan ddangos sut mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hystyried a'r gwahaniaeth a wnaethant.
>
> **Gofyniad 7.** Cynllun Gwella Cydymffurfiaeth sy'n nodi sut yr eir i'r afael ag unrhyw feysydd nad ydynt yn cydymffurfio â'r safonau (neu sy'n cydymffurfio'n rhannol). Rhaid i'r cynllun gynnwys amserlen a nodi uwch-berson cyfrifol.

Mae Taff wedi cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

### Proffil

| | |
|---|---|
| **Nifer yr Unedau** | **1,554** |
| **Trosiant Blynyddol** | **£16,048K** |
| **Gerio** | **39%** |
| **Sicrwydd Llog** | **241%** |
| **Math o Landlord Cymdeithasol Cofrestredig** | **Traddodiadol** |
| **Lleoliad** | **De Cymru** |

*Mae'r wybodaeth o 31 Mawrth 2025, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.*

Mae dyfarniadau rheoleiddio'n cael eu llunio i roi syniad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar y canlynol:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw unigolyn neu sefydliad arall ddibynnu ar ddyfarniad ac ni ddylid dibynnu arno at unrhyw ddiben arall. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gyfrifol am gyflawnrwydd a chywirdeb yr wybodaeth a roddir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-83715-920-8
Hawlfraint y Goron 2026